

# Ffics o Fflwcs

## Gan Heledd Bianchi

'Oh my God', Janet Jezebel! Symo i'n credu e!

Sori, fi'n gwbo' bo ti siwr wir yn fishi. O ni jest goffod ffono i weld os ti'n gwyllo Jeremy Kyle. Na, fi'n gwbod ti ddim wastad. Wel o ni jest yn fflican drwyddo a weles i'r Jezebel Janet Turner a'u chwaer Moira o Brynamnan yn istedd 'na gyda Jeremy Kyle. O ni ffili credu e. Ie, fi'n gwbod, 'mortifying'! Mor imbarasin, Duw. O ni bron ffili gwryndo arnynt. O nhw mor crinji. Ie mae lot 'da finne wneud bore 'ma hefyd. Jest galwad cloi tra bo'r 'adverts' 'mlaen. Weles ti ddi den? Be uffach odd hi'n gwisgo? Ie, Janet? Odd hi'n edrych fel reit tarten. Ie, fi'n gwbod. Galle hi 'di gwneud bach o ymdrech, os odd hi'n gwbo bod hi'n mynd i fod ar y teleffision, ondofe? Ie, a'u chwaer 'fyd. Weles ti'r stains dros i dillad hi? Odd hi'n edrych fel bod hi 'di mynd syth o cwca yn y gegin draw at y stiwdio. Fi'n gwbo', yr un hen stori trwy'r amser. Pwy 'di'r tad? Pam na allen nhw newid y tiwn? Druan bach, mae nhw mond yn mynd arno achos bod nhw ffili fforddio'r test DNA. Mae'r bastards yn eu cocsio nhw mewn, y'n dy' nhw? Mae'r pwnters yn meddwl bo nhw'n mynd am holide bach; cal 'i rhoi lan mewn gwesty plysh dros nôs a piss up ar blât iddynt fel bo nhw'n 'hungover' â'r diawl ar gyfer y sioe. Y diaweled di-gywilydd!

Be sy' 'mlan 'da ti heddi? O neis. Mae fe'n lico cael cawl ond dydy? Wel mae'n dechre oeri nawr. Fydd Marco ni yn cael chips, pei a pŷs heno. Wneith e ddim gyffwrdd cawl, ti'n gwbo fel 'ma fe. Mae'n connan nad yw e byth yn ei lenwi. Starter fydde fe i Marco, ti'n gweld. Mae'n hoffi eu stodj a dyna sut mae'r podj wedi tyfu ondyfe?! Be' mae'r plant yn cael? O, ti mor lwcus bo nhw gyd yn lico'r un peth. Fi'n gorfod gwneud tri pryd o fwyd bob tro. Ie, wel dwy ffili byta 'run peth â Marco ne fydden i â gwaeth podj na fe. Fyddai'n gwneud bach o cyw iar â reis i fi; rhywbeth mwy iachus. Bydd y plant moen pasta 'to, siwr o fod neu pizza. Fyddai'n gorfod sacco llysie mewn yn rhywle, 'falle yn y saws. Dwy'n credu wnewn ni gael bach o sbort heno a paratoi pizza cartref am tshenj. Mae digon o gaws yn y ffridj a mae cwpwl o jariau o ragu ar ol yn y cwpwrdd. Fydde rhai fi byth yn cyffwrdd cawl; gyda darnau neu wedi eu malu. Mae nhw'n dweud bod e'n atgoffa nhw o'm chwydu pan cefes i y'n wenwyno o'r wyau 'na flwyddyn yn ôl. Ti'n cofio? Mae hwna'n rhoi ni gyd off wedyn.

Hei, dylse ti 'di clywed y blincin gwaeddu dros yr ardd neithiwr. Ie, Brian y gwyddel 'mas eto gyda'u eurish jigs. Fi'n siwr dyna be' sy'n dechre'r gwaeddu ti'n gwbo?'. Mae ei wraig yn casau'r miwsic. Dwy'n gwbod pryd mae fe mas yn y dafarn achos dwy'n clywed Dolly Parton yn blêran wedyn. Mae hi ar ei gês e trwy'r amser i wneud y 'DIY' â'r un ateb dwy'n clywed trwy'r amser. "Stop nagging me woman. I'm doing it later." Mae'r Alsatian mowr na sy' da nhw yn dechre cyfarth wedyn ac mae nhw'n dechre Bruno a Sophie bant yn y gegin 'ma. Mae'r blincin cŵn yn dawel 'da fi nes i nhw ddechre. Licen ni sy hi'n pacio eu fags a bod e'n symud mas unwaith ac am byth. Y byddwn i wedyn yn mynd draw i'w llongyfarch hi. Gallen i wahodd hi draw fan hyn hefyd. O, weles ti Coronation Street? Colles i 'ddi 'da'r holl waeddi 'ma.

"Cere o 'ma, Sianco. Nol i dy gaitsh. Fi'n dweud wrtho ti." Mae hwyllie od ar y cockatiel 'ma bore 'ma. Bob tro dwy'n codi i symud mae fe'n ymosod ar y'n mhen i. Fi'n credu bod e'n drysu 'da gormod yn mynd 'mlaen. Os carith e 'mlaen fydd rhaid iddo fynd yn ôl i'w gaitsh. Mae'r diawl ynddo fe. Isie sylw 'ma fe. Mae fe fel cael toddler rownd y lle.

Ydyn, mae Gwen a Mai wedi cael eu porij bore 'ma. Mae nhw'n mynnu dod mewn i'r gegin nawr. Mae nhw mor ewn, dwy'n dweud wrtho ti. Mae nhw'n tapio ar ffenest y deining rŵm nes i mi agor y drŵs cefn iddynt. O, dwy'n gwbod, dwy'n gwbod, jest trîf bach, na gyd. Symo nhw'n cael e bob dydd. O, reit, wna'u ddim cadw ti den. Well i ti fynd i gymennu yn yr ardd. O, ti mor lwcus bod dy ardd mor rhwydd. Hoffwn inne gael gardd 'low maintenance' weithie. O, fi'n gwbo' bod yr add 'ma'n hyfryd ond mae cael gardd mawr yn lot o waith. Mae Marco pallu cael garddwr mewn. Mae 'di dweud bod e'n mynd i daclo'r coed rownd y cefn ond roedd hwna misoedd yn ôl a dwy'n dal i blydi aros. Sai'n meindio plannu a tipyn o glirio ond mae'r holl waith caled 'ma; torri canghennau bant o'r coed â' clirio sbwriel di-ddiwedd yn 'beyond a joke!'

Chwarae teg, daeth y dynion Pwyleg draw o'r 'allotment' i'n helpu dechre'r flwyddyn achos o nhw wedi cymeryd piti arna'i. O ni wedi connan eitha tipyn iddyn nhw cofia. O nhw mor chêt hefyd ac wedi gweithio yn hynod o galed. Ella'i ddim â gofyn nhw 'to. Dyna y'n lot dwy'n credu nawr. Jest angen gobitho y bydd Marco yn y'n helpu unwaith ac am byth.